



Briff Ymchwil
**Dangosyddion Perfformiad
ym maes Iechyd**

Awdur: **Rebekah James**
Dyddiad: **Tachwedd 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Rebekah James**

Dyddiad: **Tachwedd 2016**

Rhif Papur: **16-061**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6321

✉ : Rebekah.James@Cynulliad.Cymru

🌐 : Cynulliad.Cymru/Pigion

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Dangosyddion Perfformiad ym maes Iechyd

Mae'r adnodd hwn yn nodi'r targedau a ble y gellir gweld ystadegau ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad ym maes iechyd yng Nghymru.



Cynnwys

01. Amser a dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion brys.....	1
02. Amseroedd aros Rhwng Atgyfeiriad a Thriniaeth.....	2
03. Amseroedd Aros o ran Gwasanaethau Diagnostig a Therapi.....	3
04. Amseroedd Aros o ran Canser.....	4
05. Amseroedd Ymateb Ambiwllansys.....	5
06. Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.....	6

1. Amser a dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion brys

Defnyddir *Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru 2016-17* i fesur perfformiad yn y GIG yng Nghymru drwy gydol 2016-17.

Y targedau yn ymwneud ag amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion brys yw:

- Mae 95 y cant o gleifion i dreulio llai na 4 awr yn unrhyw gyfleusterau gofal brys mawr a mân (h.y. A&E) o'r amser cyrraedd hyd at amser eu derbyn, eu trosglwyddo neu'u rhyddhau; ac
- Nid oes dim cleifion i dreulio 12 awr neu fwy yn unrhyw gyfleusterau gofal brys mawr nac unedau mân anafiadau o'r amser cyrraedd hyd at amser eu derbyn, eu trosglwyddo neu'u rhyddhau.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi ystadegau ar yr amser a dreulir yn ein hadrannau Damweiniau ac Achosion Brys mewn **Datganiad Ystadegau chwarterol**

Mae'r datganiad ystadegau yn rhoi crynodeb o wybodaeth am y canran o gleifion sy'n treulio llai na 4 a 12 awr yn holl adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru (Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys mawr ac Unedau Mân Anafiadau/Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys eraill) o'r amser cyrraedd hyd eu derbyn, eu trosglwyddo neu'u rhyddhau. Mae ffigurau ar gael ar lefel Cymru ac ar lefel byrddau iechyd lleol.

- Mae **Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru** yn cyhoeddi **data misol** ar amser a dreulir yn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru ar ei **wefan** yn ystod y drydedd wythnos ym mhob mis.

Mae'r data misol yn rhoi crynodeb o wybodaeth rheoli am y ganran o gleifion sy'n treulio llai na 4, 8 a 12 awr yn holl gyfleusterau gofal brys ysbytai'r GIG yng Nghymru (adrannau A&E mawr ac unedau mân anafiadau / A&E eraill) o'r amser cyrraedd hyd eu derbyn, eu trosglwyddo neu'u rhyddhau.

- Mae data ar amser a dreulir yn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru hefyd ar gael ar wefan **StatsCymru**. Mae ffigurau sy'n dangos perfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros 4, 8 a 12 awr ar gael.

- Mae rhagor o wybodaeth (gan gynnwys categoreiddio cyfleusterau gofal brys yng Nghymru) ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru **Adroddiad Ansawdd ar Amser a Dreuliwyd yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru**

2. Amseroedd aros Rhwng Atgyfeiriad a Thriniaeth

Amser Rhwng Atgyfeiriad a Thriniaeth yw'r cyfnod o amser rhwng yr atgyfeiriad gan Feddyg Teulu neu ymarferydd meddygol arall i ysbyty ar gyfer triniaeth yn y GIG yng Nghymru. Mae llwybr atgyfeiriad i driniaeth yn cynnwys yr amser aros rhwng yr atgyfeiriad i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG yng Nghymru a'r amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau, profion, sganiau neu archwiliadau ysbyty eraill y gallai fod eu hangen cyn cael triniaeth.

Defnyddir Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru 2016-17 i fesur perfformiad yn y GIG yng Nghymru drwy gydol 2016-17.

Mae'r targedau sy'n ymwneud âg amseroedd rhwng atgyfeiriad a thriniaeth yng Nghymru fel a ganlyn:

- Bod o leiaf 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng atgyfeiriad a thriniaeth;
 - Bod 100 y cant o gleifion (na chânt eu trin o fewn 26 wythnos) yn cael eu trin o fewn 36 wythnos.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Datganiad Ystadegol chwarterol ar amseroedd aros y GIG Cymru o ran atgyfeiriad i Driniaeth. Mae'r Datganiad Ystadegol yn darparu amrywiaeth o ystadegau, gan gynnwys ffigurau ar gyfer llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth, a nifer yr wythnosau'n aros, yn erbyn y targedau o 26 a 36 wythnos.
- Cyn y chwarter yn diweddu Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ystadegol misol ar amseroedd aros o atgyfeiriad i Driniaeth yng Nghymru.
- Mae ystadegau misol manwl ar amseroedd aros o atgyfeiriad i driniaeth yng Nghymru ar gael ar wefan StatsCymru gwefan, fesul bwrdd iechyd lleol, amser aros a thriniaeth.
 - Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru Adroddiad Ansawdd Amseroedd aros rhwng Atgyfeiriad a Thriniaeth GIG Cymru.

3. Amseroedd Aros o ran Gwasanaethau Diagnostig a Therapi

Defnyddir Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru 2016-17 i fesur perfformiad yn y GIG yng Nghymru drwy gydol 2016-17.

Mae safonau gweithredol yn bod ar gyfer **amseroedd aros hwyaf** o ran mynediad at **wasanaethau diagnostig a therapi**:

- Amser aros hwyaf i gael mynediad at brofion diagnostig penodedig yw 8 wythnos; ac
- 14 wythnos yw'r amser aros hwyaf i gael mynediad at wasanaethau therapi penodol.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi Datganiad Ystadegol chwarterol ar amseroedd aros am Wasanaethau Diagnostig a Gwasanaethau Therapi GIG Cymru. Mae'r datganiad ystadegol yn darparu amrywiaeth o ystadegau, gan gynnwys nifer y cleifion sy'n aros, a hyd yr amser aros.

Cyn y chwarter yn diweddu Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ystadegol misol ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig a gwasanaethau therapi penodedig.

- Mae data sy'n dangos yr amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi penodedig ar gyfer y GIG yng Nghymru fesul **wythnos** a **mis** ar gael ar wefan StatsCymru.
- Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru Adroddiad Ansawdd Amseroedd Aros am Wasanaethau Diagnostig a Therapi GIG Cymru, sy'n rhoi manylion ynghylch pa wasanaethau diagnostig a gwasanaethau therapi a gaiff eu cynnwys yn yr ystadegau amseroedd aros.

4. Amseroedd Aros o ran Canser

Defnyddir **Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru 2016-17** i fesur perfformiad yn y GIG yng Nghymru drwy gydol 2016-17.

Y **targedau** sy'n ymwneud ag **amseroedd aros cancer** yw:

- Bod o leiaf 95 y cant o gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, drwy'r dull llwybrau brys yn sgîl amheuaeth bod ganddynt ganser, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod i'w hatgyfeiriad; a
- Bod o leiaf 98 y cant o gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, nad ydynt yn dilyn y llwybrau brys, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod i gael diagnosis (waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio).

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi datganiad ystadegol chwarterol ar **amseroedd aros cancer**. Y **datganiad ystadegol** GIG Cymru. Mae'r datganiad ystadegol yn rhoi gwybodaeth am gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser yn dechrau triniaeth ddiffiniol. Caiff cleifion â chanser eu rhannu i ddau grŵp gwahanol: y rhai y cyfeirir hwy drwy'r llwybr brys pan fydd amheuaeth o ganser a'r rhai na chyfeirir hwy drwy'r dull llwybr brys pan fydd amheuaeth o ganser.
- Mae **data misol** a **chwarterol** o ran amseroedd aros cancer yng Nghymru ar gael ar wefan **StatsCymru**. Darperir ffigurau wedi'u dadansoddi fesul bwrdd iechyd lleol, safle'r tiwmor a fesul chwarter / mis.
- Mae **Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru** yn cyhoeddi **gwybodaeth** am nifer yr achosion o ganser yn y boblogaeth, nifer y marwolaethau a nifer y bobl sy'n goroesi.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru **Adroddiad Ansawdd Amseroedd Aros o ran Canser GIG Cymru**

5. Amseroedd Ymateb Ambiwylansys

Ers 1 Hydref 2015, mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru wedi cynnal cynllun peilot o fodel ymateb clinigol newydd. Mae'r treial, a drefnwyd yn wreiddiol i barhau am 12 mis, wedi'i estyn am 6 mis arall. Yn ystod y treial, caiff rhai sydd mewn perygl o farwolaeth a bod angen ymateb arnynt ar unwaith i achub bywyd ymateb yn yr amser cyflymaf posibl. Bydd pob claf arall yn cael ymateb clinigol pwrpasol yn seiliedig ar ei anghenion iechyd, yn hytrach na bod ymateb generig yn cael ei gynnig sy'n seiliedig ar y model ymateb 8 munud yn unig.

Mae datganiad ystadegol misol Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am y model newydd a'i **dri chategori o alwadau** – sef **Coch, Melyn a Gwyrdd**:

Coch – Mae bywyd yn y fantol (mae rhywun mewn perygl o farwolaeth, er enghraifft, o drawiad ar y galon). Mae targed Cymru gyfan yn bodoli i 65 y cant o'r galwadau hyn gael ymateb o fewn 8 munud.

Melyn - Difrifol, ond nid yw bywyd yn y fantol (bydd y cleifion, yn aml, angen triniaeth ar y pryd, ac o bosibl y bydd angen eu cludo i ysbyty). Nid oes targed ymateb i'r galwadau hyn; ond caiff amrywiaeth o ddangosyddion canlyniad clinigol eu cyflwyno i fesur ansawdd, diogelwch a phrydlondeb y gofal a roddir ochr yn ochr â gwybodaeth am brofiad y claf, a gaiff eu cyhoeddi bob chwarter).

Gwyrdd: Nid oes brys (yn aml gall y gwasanaethau iechyd eraill reoli'r achosion gydag asesiad clinigol dros y ffôn). Nid oes targed amser swyddogol ar gyfer y galwadau hyn.

- Yn ystod cyfnod y treial, mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi datganiad ystadegau swyddogol misol sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer y galwadau ar gyfer categorïau coch, melyn a gwyrdd, ac am gynnydd, ac amseroedd ymateb yn ôl y targed o goch. Mae data ar gyfer Cymru ac fesul bwrdd iechyd lleol ar gael.
- Mae tablau sy'n cynnwys rhagor o fanylion ynghylch gwasanaethau ambiwlans brys, gan gynnwys perfformiad funud wrth funud 'melyn', ar gael ar wefan StatsCymru.
- Ers mis Ionawr 2016, caiff gwybodaeth gyd-destunol am alwadau coch, melyn a gwyrdd ei chyhoeddi bob chwarter gan yr Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

6. Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Y term 'oedi wrth drosglwyddo gofal' a ddefnyddir pan mae cleifion mewnol mewn ysbyty sy'n barod i symud i leoliad gofal mwy priodol yn cael eu hatal rhag gwneud hynny am un neu fwy o resymau.

- Mae **Llywodraeth Cymru** yn cyhoeddi cyfres chwarterol sy'n nodi niferoedd o ran oedi wrth drosglwyddo gofal mewn ysbytai GIG Cymru. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn darparu amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys hyd yr oedi a'r rheswm drosto.

Cyn mis Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ystadegol misol ar oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru.

- Mae **data misol** ar oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru ar gael ar wefan StatsCymru.